
Deall Dyneiddiaeth



# BETH YW DYNEIDDIAETH?


**Byd-olwg digrefydd** yw dyneiddiaeth sy’n cael ei rannu gan filiynau o bobl yn y DU a ledled y byd. Mae dyneiddwyr yn bobl ddigrefydd sy’n credu ei fod yn bosib byw bywyd da, hapus ac ystyrlon.


## MEDDYLIA DROS DY HUNAN GWEITHREDA DROS BAWB

Mae’r **Bod Dynol Hapus** yn symbol a ddefnyddir gan gyrff dyneiddiol ledled y byd. Mae’n mynegi dathliad o fod yn ddynol – dathlu beth gall bodau dynol ei wneud a dathlu ein gallu i fod yn hapus.

## BETH YW BOD DYNOL?

Mae Dyneiddwyr yn credu fod bodau dynol yn meddu ar ddechreuad **naturiol. Esblygasom** fel pob peth byw arall. Mae gennym lawer o dalentau a galluoedd ac, os eu rhown i ddefnydd da, mae gennym y **potensial** i fyw bywydau da ac hapus.






## SUT GALLAF WYBOD BETH SY'N WIR?

Mae Dyneiddwyr yn credu mai lle **naturiol** yw'r byd heb unrhyw ochr goruwchnaturiol. Maent yn **chwilfrydig** ynglŷn â'r byd o'u cwmpas. Maent yn credu fod **gwyddoniaeth** a chwilio am **dystiolaeth** yn rhoi i ni y ffordd orau o ateb cwestiynau am y byd.

Mae dyneiddwyr yn ddigrefydd. Dydyn nhw ddim yn credu mewn duw. Does ganddyn nhw ddim llyfr sanctaidd na lleoedd addoli fel eglwysi neu mosgiau.


## SUT DDYLWN FYW?



Mae dyneiddwyr yn credu mai hwn yw'r **un bywyd** sydd gennym ac felly mae rheidrwydd arnom i wneud y gorau ohono. Maent yn credu dylem fod yn **rhydd** i benderfynu sut i fyw (cyn belled â'n bod ddim yn achosi niwed i eraill). Dylem chwilio am beth sy'n ein gwneud yn **hapus** a chefnogi eraill i wneud yr un fath.

## SUT YDW I'N GWYBOD BETH SY'N DDA?

Mae dyneiddwyr yn credu dylem ddefnyddio **empathi** (dychmygu sut gallai pobl eraill deimlo) a cheisio trin pobl eraill yn garedig a theg. Dylem feddwl am ganlyniadau ein gweithredoedd a'r effaith debygol ar bobl eraill, anifeiliaid, a'r blaned.



> *Yr amser i fod yn hapus yw nawr. Y lle i fod yn hapus yw yma. Y ffordd i fod yn hapus yw gwneud eraill felly.*
>
> Robert Ingersoll, dyneiddiwr American (1833-1899)

**MAE LLAWER O DDYNEIDDWYR YN EDMYGU A CHEISIO BYW TRWY GADW AT Y RHEOL EURAID:**

Triniwch bobl eraill yn y modd y byddech am gael eich trin yn eu sefyllfa. Peidiwch â thrin eraill mewn modd na fyddech am gael eich trin eich hunan.

# PA FATH O FYD RWYF AM EI WELD?



Mae dyneiddwyr yn credu fod bodau dynol yn unig yn **gyfrifol** dros wneud y byd yn lle gwell. Mae llawer yn ymgyrchu dros gydraddoldeb, hawliau dynol, a gwarchod yr amgylchedd. Maent yn dathlu'r datblygiad rydym wedi ei wneud, ond yn cydnabod fod 'na waith i'w wneud o hyd.

## DEFODAU DYNEIDDIOL

Mae llawer o bobl ddigrefydd heddiw yn dewis cael **defod ddyneiddiol** i gydnabod a dathlu digwyddiadau pwysig yn eu bywydau. Mae rhain yn cynnwys defodau enwi, priodasau ac angladdau.



**DEWCH O HYD I FWY** @HumanismEdu | education@humanism.org.uk

**understandinghumanism.org.uk**

Humanists UK, 39 Moreland Street, London, EC1V 8BB.
Registered charity no. 285987. Limited company no. 228781 in England and Wales